**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2024 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| A Davis | E W Fitzgerald | V A Holland |
| W G Lewis | P N May | S Pritchard |
| T M White | | |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**
Elizabeth Lee

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | S M Jones |
| P R Hood-Williams | L R Jones |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Matthew Bowyer | Arweinydd Grŵp - Priffyrdd a Chludiant |
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Alan Ferris | Rheolwr Diogelwch Ffyrdd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R C Stewart - Arweinydd y Cyngor/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth
Y Cynghorydd A S Stevens - Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: M Jones ac F D O'Brien
Aelod(au) Cyfetholedig Statudol: Beth Allender

---

## 59 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 60 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 61 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.

## 62 Cwestiynau gan y cyhoedd

Dim.

## 63 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Sesiwn Holi ac Ateb gydag Arweinydd y Cyngor/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (y Cynghorydd Rob Stewart).

Roedd Arweinydd y Cyngor/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth yn bresennol ar gyfer y sesiwn holi ac ateb ar ei gyfrifoldebau portffolio.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cynnydd ar Brosiectau Mawr: Bae Copr – Roedd Willmot Dixon wedi cymryd yr awenau oddi wrth y cyn-gontractwr ac roedd cynnydd yn cael ei wneud o ran blaenoriaethu'r gwaith sydd heb ei gyflawni. Roedd trafodaethau ynghylch gwesty newydd arfaethedig wrth ymyl yr Arena yn parhau.

- Digwyddiadau Arena Abertawe/Gwerthu Tocynnau – Gofynnwyd cwestiwn ynghylch perfformiad yn erbyn y cynllun busnes, a niferoedd cymharol sy'n ymweld ar gyfer perfformiadau masnachol yn erbyn digwyddiadau megis cynadleddau lle gall tocynnau fod am ddim. Nodwyd bod yr Arena yn lleoliad aml-ddefnydd ac roedd modd darparu dadansoddiad ar gyfer cynadleddau a sioeau masnachol a digwyddiadau eraill fel rhentu'r arena ar gyfer seremonïau graddio.

- Parcio yng Nghanol y Ddinas – Darpariaeth Cilfach Anabl – Mynegwyd pryder ynghylch colli cilfachau dros dro ar gyfer gwaith ac effaith datblygu. Roedd Swyddogion Priffyrdd wedi ymweld â chanol y ddinas i edrych ar gyfleoedd i adleoli cilfachau parcio anabl sydd wedi'i ddadleoli. Roedd Park Street, Pell Street a chefn y Cwadrant yn cael eu harchwilio i liniaru colli cilfachau parcio anabl.

- Datblygiad Adeilad Byw Arloesol yn Iard Picton - yn dilyn ymholiad am yr enw arfaethedig ar gyfer yr adeilad hwn, nodwyd bod adroddiad polisi enwi'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor i ystyried mecanwaith ffurfiol ar gyfer enwi ac ailenwi.

- Prosiectau Mawr/Prosiectau Newydd ar gyfer Abertawe o 2024 ymlaen - byddant yn parhau i ganolbwyntio ar gwblhau'r prosiectau sydd heb eu cwblhau, fodd

bynnag, roedd cyfleoedd yn bodoli mewn perthynas â Neuadd Albert, hen adeilad Burtons, Mamma Mia's ac adeilad McDonald's ar gornel Sgwâr y Castell. Manylwyd ar ail gam Bae Copr a'r cynnydd mewn perthynas ag *Urban Splash*, Oriel Genedlaethol Cymru, yr Acwariwm a *Skyline*.

- Eden Las – trafodaeth ynghylch cynnydd a datblygiadau cydamserol mewn technoleg. Nodwyd bod y prosiect yn cynnwys prosiect ynni integredig a bod nifer o elfennau wedi dod at ei gilydd. Roedd y Cyngor yn agos at ddechrau'r gwaith.

- Pwyntiau gwefru cerbydau trydan – darperir ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd yn dilyn ei gwestiwn yn ystod cyfarfod y cyngor.

- Gwasanaeth Archifau yn symud i hen adeilad BHS - byddai'r adeilad o'r radd flaenaf ac yn ddigon mawr i gynnwys y Gwasanaeth Archifau.

- Gwasanaeth Draenio – gwnaed buddsoddiad helaeth mewn perthynas â'r Gwasanaeth.

- Rhaglen Trawsnewid – Gofynnwyd cwestiwn ynghylch ymateb i sylwadau Archwilio Cymru a wnaed ym mis Hydref 2023. Nodwyd gwnaed y sylwadau hyn ar 'adeg benodol' ac roedd yr adborth yn gadarnhaol i raddau helaeth. Ystyriwyd argymhellion ac roedd y Bwrdd Cyflawni Trawsnewid yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac effaith.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Cyngor/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth am ei fewnbwn.

**Penderfynwyd** bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 64 Camau Dilynol: Gweithgor Craffu - Diogelwch Ffyrdd

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ynghylch materion sy'n peri pryder o ran Diogelwch Ffyrdd, yn dilyn Gweithgor Craffu ar Ddiogelwch Ffyrdd ym mis Rhagfyr 2022, a nodwyd yr ymagwedd sy'n cael ei dilyn er mwyn adeiladu ar welliannau diogelwch ffyrdd a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Aeth y Rheolwr Diogelwch ar y Ffyrdd â'r Pwyllgor drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at agweddau penodol, gan gynnwys llwyddiant y cyngor wrth leihau lefel a dwyster gwrthdrawiadau.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Patrolau Croesfannau Ysgolion – Mynegwyd pryder ynghylch darpariaeth yn y dyfodol. Mae'r cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i Batrolau Croesfannau Ysgolion. Nodwyd, er nad oedd patrolau wedi dod i ben, roedd heriau'n bodoli o ran recriwtio.

- Arwyddion/Baneri y tu allan i ysgolion – Does dim cynnydd wedi bod o ran cynyddu arwyddion a baneri y tu allan i ysgolion am ddiogelwch ffyrdd.

- Rhaglenni Addysg Kerbcraft a Diogelwch Ffyrdd - roedd angen diweddaru Rhaglen Kerbcraft a chyflwynwyd sylwadau i Lywodraeth Cymru.

- Rhaglenni Addysg Kerbcraft a Diogelwch Ffyrdd – mae 50 allan o'r 74 o Ysgolion Cynradd yn cymryd rhan. Mae maint grant Llywodraeth Cymru yn effeithio ar ddarpariaeth y rhaglen. Anogwyd rhieni i gymryd rhan drwy'r wefan a'r llenyddiaeth a ddarparwyd i blant ar gyfer eu rhieni.

- Grant Diogelwch Ffyrdd – roedd yn anodd mesur effeithiau colli Grant Diogelwch Ffyrdd. Mae'r gwerthusiad yn cymryd nifer o flynyddoedd ac mae llwyth gwaith cynyddol staff priffyrdd o ganlyniad i'r cynllun gostwng cyflymder i 20mya wedi cywasgu'r her hon.

- Llwybrau Defnydd a Rennir – unrhyw broblemau gyda diogelwch, e.e., darparu arwyddion, dylid eu cyfeirio at y Ddesg Gymorth Priffyrdd.

- Cydweithrediad rhwng cynllunio, dylunio a darparu Llwybrau Teithio Llesol a'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd – er bod heriau'n bodoli o ran cydbwyso ystyriaethau gwahanol, mae'r ddau wasanaeth wedi'u hintegreiddio i sicrhau bod unrhyw faterion diogelwch yn cael eu codi ynghylch llwybrau Teithio Llesol.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd a'r Swyddogion am eu mewnbwn a mynegodd ddiolch i'r Tîm Diogelwch Ffyrdd am eu gwaith.

**Penderfynwyd** bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 65 Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (Y Cynghorydd Paxton Hood-Williams, y Cynullydd).

Cyflwynodd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar waith/gweithgareddau Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

**Penderfynwyd** nodi Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

## 66 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

Ni adroddwyd ar unrhyw newidiadau.

## 67 Rhaglen Waith Craffu

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad arferol ar y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2023/24 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at sesiwn olaf y Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Craffu:

- Hunanasesiad o Graffu (dwy ran) – i'w gynnal ar 17 Ionawr (ar-lein)/23 Ionawr (Ystafell Derbyn yr Arglwydd Faer, Neuadd y Ddinas)

Roedd y prif eitemau ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Chwefror yn cynnwys:

- Cyflawni yn erbyn Strategaeth Datblygu'r Gweithlu.

## 68 Llythyrau Craffu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llythyrau canlynol, gan fyfyrio ar weithgarwch craffu diweddar y Pwyllgor:

- Gweithgor Craffu – Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Llythyr at/gan Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd.

## 69 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfodydd Panel/Gweithgor/Craffu Rhanbarthol sydd ar ddod, er mwyn cael ymwybyddiaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.15pm

**Cadeirydd**